y clwb blwch llythyrau

BookTrust
Getting children reading

# Adroddiad Effaith Clwb Blwch Llythyrau 2025



## Ynglŷn â’r Clwb Blwch Llythyrau

Am fwy nag ugain mlynedd, mae Clwb Blwch Llythyrau BookTrust wedi bod yn dod â hud darllen i blant o gefndiroedd teuluol incwm isel neu agored i niwed. Ledled y DU, mae plant yn cael eu cofrestru yn y Clwb Blwch Llythyrau gan awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau eraill. Mae pob plentyn yn derbyn ei barsel lliwgar ei hun o lyfrau, gemau mathemateg, deunydd ysgrifennu a deunyddiau eraill o ansawdd uchel unwaith y mis am chwe mis. Mae fersiynau dwyieithog ar gael i deuluoedd â Chymraeg yn iaith gyntaf neu sydd eisiau datblygu eu Cymraeg. Mae'r cylch dosbarthu parseli arferol o fis Mai i fis Hydref, ond rydym yn hapus i drafod amserlenni dosbarthu amgen.

Mae sawl gwerthusiad wedi archwilio effaith y Clwb Blwch Llythyrau ar arferion darllen plant. Mae'r rhaglen yn cynnwys nodweddion sydd â'r bwriad o ennyn diddordeb plant a chefnogi eu darllen.




## Ynglŷn â'r adroddiad

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn rhannu canfyddiadau allweddol o'r hyn rydym yn ei ddysgu’n rheolaidd gyda phlant sy'n derbyn deunydd y Clwb Blwch Llythyrau. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau o’n arolygon plant a chardiau post adborth.

Rhwng Hydref 2024 a Mai 2025, Ymatebodd 290 o blant rhwng 6 a 13 oed i'n harolwg plant. Mae'r arolwg yn mynd i bob plentyn sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau Glas, Coch a Gwyrdd trwy awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd wedi derbyn 115 o gardiau post adborth gan blant ar draws ystod o oedrannau.

### Cyfyngiadau

Er ein bod wedi derbyn ymatebion gan ystod o blant, ni allwn fod yn sicr bod y rhai a ymatebodd i'n harolwg yn gynrychioliadol o holl rai sy’n derbyn deunydd y Clwb Blwch Llythyrau.

Hoffem ddiolch i'r teuluoedd a'r plant a rannodd eu barn gyda ni a phartneriaid sy'n cymryd rhan am eu cefnogaeth barhaus i'n galluogi i glywed ganddynt.

# Canfyddiadau allweddol

Y llynedd, fe wnaethom gyrraedd dros 10,500 o blant ar draws 65% o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Mae ymatebion i'n harolwg yn dweud wrthym bod...**

**95%**
o blant yn hoffi neu'n caru'r Clwb Blwch Llythyrau

**90%**
o blant yn hoffi neu'n caru'r llyfrau yn eu parseli

**77%**
o blant yn darllen mwy ar eu pennau eu hunain ar ôl derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau

---

## Yn gyffredinol mae 77% o'r plant yn darllen mwy, un ai...

### Yn annibynnol




Ffigur 1. Ymateb pob plentyn a ymatebodd i'r cwestiwn sy'n derbyn parseli'r Clwb Blwch Llythyrau
N = 277

### Gydag oedolyn




Ffigur 2. Ymateb pob plentyn a ymatebodd i'r cwestiwn sy'n derbyn parseli Coch a Glas y Clwb Blwch Llythyrau
N = 214

# Beth oedd gan blant i'w ddweud

Yn ogystal â'r arolwg, rydym hefyd yn cynnwys cerdyn post adborth yn un o becynnau y Clwb Blwch Llythyrau fel ffordd arall i blant ddweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl am y parseli maen nhw'n eu derbyn. Mae eu negeseuon yn sôn am y cyffro o agor parsel newydd bob mis, y mwynhad o ddarganfod llyfrau a gweithgareddau, a pha mor ddefnyddiol yw'r eitemau ar gyfer dysgu a chwarae (Saesneg yn unig).


















## Cefnogaeth i arferion darllen

Mae'r Clwb Blwch Llythyrau yn cael effaith gadarnhaol ar arferion darllen plant. Mae plant yn dweud eu bod yn mwynhau darllen yn fwy, ac yn teimlo'n fwy hyderus amdano, ar ôl derbyn parseli'r Clwb Blwch Llythyrau. Fel y dangosir yn ffigurau 1 a 2, mae llawer yn dweud eu bod yn darllen mwy ar eu pennau eu hunain (70%), neu gydag oedolyn (52%), oherwydd y Clwb Blwch Llythyrau.

"Mae Izzy* wrth ei bodd yn derbyn y parseli hyn, maen nhw'n ei gwneud hi'n hapus iawn ac yn ei hannog i ddarllen hyd yn oed mwy o lyfrau."

**Gofalwr plentyn sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau**

*enw wedi newid

## Cefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â mathemateg

Datblygwyd y gemau mathemateg gan yr Athro Rose Griffiths, arbenigwr addysg mathemateg blaenllaw ym Mhrifysgol Caerlŷr. Maent yn darparu adnoddau parod i'w defnyddio i deuluoedd i alluogi plant i brofi llwyddiant a mwynhad rheolaidd mewn amrywiaeth o gysyniadau mathemateg allweddol.

Mae teimladau o lwyddiant yn helpu plant i ymgysylltu â chyfleoedd a thasgau mathemateg eraill, gan gefnogi mwy o gymhelliant a dyfalbarhad gyda'u mathemateg yn yr ysgol.

"Rwy'n caru'r Clwb Blwch Llythyrau oherwydd rwy'n caru pethau addysgol ac rwy'n defnyddio'r holl bethau hyn er enghraifft mae'r gemau mathemateg wedi gwella fy mathemateg ac mae'r holl lyfrau wedi gwella fy narllen yn fawr."

**Merch 10 oed sy'n derbyn parseli coch**

## Cefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol

Mae 95% o blant yn dweud eu bod yn hoffi neu'n caru'r Clwb Blwch Llythyrau. Mae'r rhaglen yn gwneud mwy na chefnogi arferion darllen; mae hefyd yn meithrin cyffro ac ymdeimlad o berthyn sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol ehangach plant. Mae corff eang o ymchwil yn dangos y gall darllen gefnogi plant i ddatblygu gwell lles meddyliol, hunan-barch a rheoleiddio emosiynol. Mae'r Clwb blwch llythyrau wedi'i gynllunio'n benodol i feithrin teimladau o ymreolaeth, gwerth a hapusrwydd.

**Darllenwch fwy am sut y gall darllen gefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol (Saesneg yn unig) yma.**

"Mae [darllen] yn gwneud i mi deimlo'n well pan fyddaf naill ai 1. yn drist 2. yn ddig 3. yn genfigennus 4. eisiau sgrechian."

**Plentyn sy'n derbyn parseli glas**

## Dod â mwynhad

Mae mwynhad yn sbardun allweddol wrth annog plant i ddarllen mwy. Ochr yn ochr â'r llyfrau, mae'r Clwb Blwch Llythyrau yn cynnig ystod o nodweddion unigryw sydd wedi'u cynllunio i ennyn diddordeb plant a chynyddu eu mwynhad o ddarllen a mathemateg.

- 97% yn hoffi neu'n caru'r deunydd ysgrifennu
- 91% yn hoffi neu'n caru'r gweithgareddau
- 89% yn hoffi neu'n caru'r llythyrau gan awdur
- 64% yn hoffi neu'n caru'r gemau mathemateg

> "Rwy'n hoffi'r llyfrau yn fawr ac yn meddwl eu bod yn ddiddorol iawn i'w darllen, rwy'n teimlo bod fy sillafu wedi gwella ers i mi ddechrau darllen. Rwyf wrth fy modd yn derbyn parseli oherwydd dydw i byth yn gwybod pa lyfr fydd y tu mewn."
>
> **Merch 12 oed sy'n derbyn parseli gwyrdd**




## Beth nesaf?

Fel rhan o'n cylch rheolaidd o ddiweddariadau, rydym yn gweithio gyda'r Athro Rose Griffiths i adnewyddu'r gemau ac adnoddau mathemateg ar draws yr ystod oedran 3-13 i sicrhau bod y cynnwys yn parhau i fod yn gyfredol, yn ddifyr ac yn cyd-fynd ag arfer gorau. Bydd yr adnoddau newydd hyn yn cael eu cyflwyno mewn dwy don, o fis Mawrth 2026 a Mawrth 2027.

Dros y flwyddyn academaidd 2025–26, rydym hefyd yn treialu Clwb Blwch Llythyrau yn benodol ar gyfer plant sydd â gweithiwr cymdeithasol. Byddwn yn casglu mewnwelediadau ar sut y gall ysgolion ac Ysgolion Rhithwir weithio gyda'i gilydd ac i ddatblygu syniadau ymarferol ar gyfer ymgysylltu â'r plant hyn â darllen.

Mae BookTrust wedi bod yn cefnogi plant mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol ers dros ugain mlynedd. Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn gweithio i gynyddu cydnabyddiaeth o'r rôl y gall darllen ei chwarae wrth gefnogi'r plant hyn i adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd.

**Darganfyddwch fwy am ein gwaith gyda theuluoedd perthnasol yn ein hadroddiad ymchwil Gwerth perthynol darllen: mewnwelediadau gan deuluoedd gofal gan berthnasau**

## Mwy o wybodaeth

**Ewch i [booktrust.org.uk/letterbox-club](booktrust.org.uk/letterbox-club) (Saesneg yn unig) i:**

- Darganfod sut y gallwch gefnogi'ch plant
- Cofrestru i dderbyn samplau Clwb Blwch Llythyrau
- Gwylio gweminarau wedi'u recordio
- Lawrlwytho eich canllaw strategaeth premiwm disgyblion
- Gweld cefnogaeth ac adnoddau Clwb Blwch Llythyrau
- Cofrestru ar gyfer Clwb Blwch Llythyrau
- Tanysgrifio i dderbyn ein cylchlythyr

**Os hoffech ddarganfod mwy am y Clwb Blwch Llythyrau, cysylltwch â:**
**queries@booktrust.org.uk**




## Ynglŷn â BookTrust

BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gweithio gyda phob awdurdod lleol, gan ddarparu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant.

Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd teuluoedd incwm isel neu agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes sydd ynghlwm â hynny.




Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

teach PRIMARY AWARDS 2024 HIGHLY COMMENDED

**booktrust.org.uk/letterbox-club**
Dilynwch ni: @BookTrust

BLWCH LLYTHYRAU y clwb blwch llythyrau

BookTrust Getting children reading

©2025 BookTrust
Rhif Elusen: 313343